## PWYLLGOR CRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

## 20 Ionawr 2021

Yn bresennol: Cynghorydd M James (Cadeirydd)
Dr M Havard, Mrs J James (Dirprwy), Cynghorydd M Williams a’r Cynghorydd S Yelland.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am - 12.40pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd K Doolin a Dr R Plummer. Nodwyd bod Mrs J James yn dirprwyo ar ran Dr Plummer.

**2. Datgan Buddiannau**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant oddi wrth Dr Madeleine Havard o ran y cais gan yr RSPB (SDF/012021/5). Ni wnaeth fwrw pleidlais ar y cais hwn.

**3. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2020 i'w cadarnhau a'u dilysu.

O ran Cofnod 7 (Aelodau Ymgynghorol o’r Pwyllgor) eglurwyd y byddai’r swyddog yn ceisio cyngor penodol ynglŷn â cheisiadau unigol lle bo’r swyddog/Pwyllgor o’r farn bod angen hynny.

O ran Eitem 10 b) eglurodd yr Aelodau y byddent, oherwydd y cyfnod clo ar hyn o bryd, yn ymweld â’r safle pan ddaw’r cyfle i wneud hynny.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Tachwedd 2020 yn amodol ar y diwygiadau uchod.

**4. Eithrio’r cyhoedd**

**PENDERFYNWYD** eithrio’r cyhoedd o’r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y’i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i’r Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

**5. Adroddiad ar Ddiweddaru’r Gronfa Datblygu Cynaliadwy (SDF)**

**a) Sefyllfa Ariannol SDF**

Dywedwyd bod cyfanswm o £150,000 wedi’i neilltuo i’r gronfa ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21. Roedd £50,000 o’r swm hwn yn dod o Gronfa Llywodraeth Cymru ‘Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy’

oedd angen ei wario erbyn yr 31ain o Fawrth 2021. Roedd yr adroddiad yn rhestru ymrwymiadau ariannol cyfredol y Gronfa o'r prosiectau a dderbyniodd grant yn y cyfarfod blaenorol, a nodwyd bod £4,858 wedi'i wario ar y Grant Bach Gwyrdd. Roedd hyn yn gadael £96,067 mewn arian grantiau sydd ar gael yn y flwyddyn ariannol hon.

Hefyd roedd yr adroddiad yn rhestru prosiectau oedd ar waith a dderbyniodd gymorth grant cyn blwyddyn ariannol 2020/21, a nodwyd y byddai'r swm hwn yn cael ei dalu o'r cyllid a gariwyd drosodd o gyllidebau SDF y blynyddoedd blaenorol.

Dywedodd y Rheolwr Cyllid wedyn bod yr Awdurdod wedi cael y cyfle i gael mynediad i gyllid ychwanegol drwy'r Gronfa Adferiad Gwyrdd. Er nad oedd cadarnhad wedi dod i law y byddai'r Awdurdod yn derbyn y cyllid ychwanegol hwn o £100,000, gofynnwyd i'r Aelodau gymryd hyn i ystyriaeth am y tro wrth ddod i'w penderfyniadau.

**NODWYD.**

**b) Ceisiadau i'w Hystyried**

Atgoffwyd y Pwyllgor bod yr Awdurdod yn eu cyfarfod fis Mehefin 2020 wedi cytuno i newid ffocws y Gronfa i gefnogi prosiectau a arweinir gan y gymuned oedd yn cyfrannau at leihau'r allyriadau carbon ac yn helpu i ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Roedd pedwar categori i geisiadau:

A. Gosod cyfleusterau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn adeilad cymunedol
B. Menter i hyrwyddo gostyngiad mewn allyriadau carbon mewn trafnidiaeth
C. Gosod cyfleuster cymunedol sy'n lleihau gwastraff
D. Unrhyw fenter arall i leihau carbon yn y gymuned.

Roedd yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor yn amlinellu 12 cais a wnaed i'r gronfa, a dau ohonynt wedi'u gohirio o'r cyfarfod blaenorol, oedd yn geisiadau am gyfanswm o £271,607, oedd yn uwch na swm y cyllid oedd ar gael. Wrth asesu'r ceisiadau, roedd y Swyddog Grantiau a Chyllido wedi cymryd i ystyriaeth y meini prawf sgorio y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod blaenorol yn ogystal ag ystyried y meini prawf ychwanegol canlynol:

1. Ansawdd y cais
2. Lleoliad yr ymgeisydd/cymuned a nifer y ceisiadau o'r un ardal oedd eisoes yn cael eu hariannu gan SDF.
3. Y dyddiad cychwyn arfaethedig
4. Yr arian cyfatebol a gynigir

5. Y math o sefydliad sy'n gwneud cais

Roedd y ceisiadau canlynol gerbron y Pwyllgor i'w hystyried ac roedd yr adroddiad yn nodi crynodeb a gwiriad cymhwysedd ar gyfer pob un. Argymhellwyd bod rhai prosiectau yn cael eu hariannu yn rhannol er mwyn gallu cefnogi nifer ehangach o brosiectau ar draws y Parc Cenedlaethol.

| Math o Brosiect | Cyfeirnod | Sefydliad | Y cyllid a geisir |
|---|---|---|---|
| **Prosiectau a Ohiriwyd o fis Tachwedd 2020** | | | |
| D | SDF/012021/1 | Grŵp Amgylcheddol Ardal Trefdraeth (NAEG) | £24,973 |
| D | SDF/012021/2 | Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian Cyf (CARE) | £24,280 |
| **Ceisiadau Newydd Ionawr 2021** | | | |
| A | SDF/012021/3 | Cymdeithas Chwaraeon a Hamdden Herbrandston | £30,046 |
| A & B | SDF/012021/4 | Cymdeithas Gymunedol De Ridgeway | £37,568 |
| A | SDF/012021/5 | RSBP | £9,420 |
| A | SDF/012021/6 | Clwb Rygbi Crymych Cyf | £13,689 |
| A & B | SDF/012021/7 | Neuadd Gymuned Bwlch-y-groes | £4,500 |
| A, B, C | SDF/012021/8 | Haverhub | £28,168 |
| B | SDF/012021/9 | Eco Dewi | £24,210 |
| D | SDF/012021/10 | Cwmni Budd Cymunedol Clynfyw | £24,800 |
| D | SDF/012021/11 | Sbardun, Dysgu Sir Benfro | £24,963 |
| D | SDF/012021/12 | Gwydnwch Cymunedol Ffynnone yng Ngogledd Sir Benfro | £24,990 |
| | | **Cyfanswm y cyllid a geisir** | **£271, 607** |

Ystyriwyd pob cais yn fanwl yn erbyn y templed sgorio ac yng ngoleuni'r cyllid ychwanegol oedd yn yr arfaeth, a chytunwyd y gellid rhoi nawdd i brosiectau ychwanegol. Gan fod y cyllid ychwanegol hwn wedi'i gadarnhau yn ddiweddarach **PENDERFYNWYD**:

(i) rhoi swm llawn y cyllid y gofynnwyd amdano i'r ceisiadau canlynol, cyn belled ag y cedwir at amodau arferol y grant:

a) SDF/012021/3 Cymdeithas Chwaraeon a Hamdden Herbrandston
b) SDF/012021/4 Cymdeithas Gymunedol De Ridgeway
c) SDF/012021/7 Neuadd Gymuned Bwlch-y-groes
d) SDF/012021/10 Cwmni Budd Cymunedol Clynfyw

(ii) rhoi rhan o swm y cyllid y gofynnwyd amdano i'r prosiectau canlynol, cyn belled ag y cedwir at amodau arferol y grant

a) SDF/012021/1 Grŵp Amgylcheddol Ardal Trefdraeth (NAEG) (£20,471 – hepgor plannu ar eiddo preifat)
b) SDF/012021/2 Ynni Adnewyddadwy Cwm Arian Cyf (CARE) (£8,915 – elfen ymchwil y prosiect yn unig)
c) SDF/012021/5 RSBP (£5,888, 50% o'r cyllid)
d) SDF/012021/6 Clwb Rygbi Crymych Cyf (£8,561 hepgor yr elfen bwyler o'r cais)

(iii) gwrthod y ceisiadau canlynol:

a) SDF/012021/8 Haverhub
b) SDF/012021/9 Eco Dewi
c) SDF/012021/11 Sbardun, Dysgu Sir Benfro
d) SDF/012021/12 Gwydnwch Cymunedol Ffynnone yng Ngogledd Sir Benfro